Martin Luther: 1483–1546

Yma y safaf

Dewrder / gosod esiampl / ffyddlondeb

Beth petai eich athro neu athrawes yn dod i fewn i'r dosbarth bob dydd a moesymgrymu o'ch blaen. Sut fuasech chi'n teimlo? Byddai un athro yn moesymgrymu bob bore o flaen dosbarth o fechgyn. Gofynnwyd iddo pam roedd yn gwneud hyn. A'r ateb, "Does gen i ddim syniad beth fydd y bechgyn yma ar ôl iddyn nhw dyfu i fyny." Yn y dosbarth hwnnw roedd bachgen o'r enw Martin Luther.

Pan fyddai Martin yn fachgen drwg, byddai ei fam yn dweud wrtho, "Cofia di, Martin, os wyt ti'n ddrwg bydd Duw yn troi'n gas tuag atat ti." Roedd hyn yn codi ofn ar y bachgen. Un diwrnod pan oedd ef a'i ffrind yn mynd am dro, cododd storm enbyd. Dechreuodd daranu a goleuo mellt. Aeth y ddau i gysgodi o dan goeden. Trawodd y fellten ei ffrind a bu farw.

Roedd Martin yn sicr fod ei ffrind wedi bod yn ddrwg, wedi pechu yn erbyn Duw. "Mae Duw wedi cosbi fy ffrind am ei fod wedi pechu," wylodd Martin. "Os bydd yn fy nghadw i, yna mi af i'r fynachlog i fod yn fynach." Ac i'r fynachlog yr aeth. Roedd y mynaich eraill yn falch o'i weld gan ei fod yn ŵr dysgedig. Tra bu yn y fynachlog roedd yn anniddig iawn. Iddo ef, roedd Duw yn greulon ac yn gas. Bu'n sgwrsio un diwrnod gydag un o'r mynaich eraill.

"Rwyt ti'n edrych yn drist bob amser, beth sy'n dy boeni di?" gofynnodd un mynach iddo.

"Teimlo ydw i fod Duw yn fy nychryn," atebodd Martin.

"Edrych," meddai'r mynach arall, "pam na wnei di ddarllen y Beibl? Mae'r Beibl yn dangos yn glir fod Iesu Grist wedi dod i'r byd, nid i ddychryn pobl ond i'w caru."

Yn y dyddiau hynny doedd y Beibl ddim yn cael ei ddarllen, hyd yn oed yn yr eglwysi. Dechreuodd Martin ddarllen y Beibl am y tro cyntaf. Gwelodd am y tro cyntaf fod y mynach yn dweud y gwir.

"Rwyt ti'n berffaith iawn, mae Iesu Grist yn dweud bod Duw yn dad ac yn ein caru bob un ohonom," meddai Martin yn llawen.

Ond doedd yr eglwysi bryd hynny ddim yn dysgu hyn. Roedd

yr esgobion a'r offeiriaid yn bobl gyfoethog a phwerus. Aeth i Rufain i weld y Pab. Doedd gan Martin ddim llawer o feddwl ohono yntau chwaith. Roedd Martin yn benderfynol o ddweud wrth y bobl am ddrygau'r eglwys.

Un diwrnod aeth i'r farchnadfa a hoeliodd femrwn ar ddrws yr eglwys. Daeth pobl o bob cwr o'r wlad i ddarllen yr hyn oedd wedi ei ysgrifennu. Yn fuan iawn, roedd pawb yn yr Almaen wedi clywed am y mynach oedd wedi meiddio mynd yn groes i ddaliadau'r eglwys. Bu'n rhaid i Martin fynd o flaen Cyngor yr Eglwys. Safodd yn gadarn o'u blaenau ac meddai,

"Dydw i ddim yn barod i dynnu fy ngeiriau yn ôl. Os gellwch chi ddangos i mi yn nhudalennau'r Beibl fy mod yn dweud celwydd, yna byddaf yn barod i dynnu pob gair yn ôl. Mae'n rhaid i mi ufuddhau i eiriau'r Beibl a dim arall. Yma y safaf. Bydded i Dduw fy helpu."

Roedd Luther mewn peryg mawr o gael ei losgi i farwolaeth. Ond roedd llywodraethwr y rhan honno o'r Almaen yn ffrind iddo. Cuddiwyd ef yn y castell. Yma cyfieithodd y Beibl i iaith y bobl. Credai yn sicr y dylai pawb ddarllen y Beibl yn ei iaith ei hun.

"Gwnaethost ddaioni i'th was, yn unol â'th air, O Arglwydd."

Salm 119:65

Diolch i Ti, O Dduw,
am bobl sy'n
barod i sefyll
yn gadarn dros
yr hyn maen nhw'n gredu.
Gwna finnau'n ddewr.
Amen.

Ydych chi'n credu fod Martin Luther yn iawn yn sefyll yn erbyn cred yr Eglwys?